**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC 03-02(p3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 24 Ebrill 2002 |
| **Amser:** | 10.00am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Adroddiad ar yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal |

**PWRPAS**

1. Rhoi adroddiad ar y cynnydd o ran yr ymgyrch cyflog cyfartal yn sgil ei lansio ar 7 Mawrth 2002.

**ARGYMHELLIAD**

2. Gofynnir i'r Aelodau ystyried y cynlluniau i ddatblygu'r ymgyrch ac argymhellion y gweithgor, sef:

- y dylai'r ymgyrch cyflog cyfartal ganolbwyntio ar lansiad i'r sector preifat yn ystod Wythnos Fusnes Cymru (13-17 Mai 2002).
- y dylid mabwysiadu'r argymhellion a amlinellwyd yn Atodiad A i gyflwyno'r ymgyrch mewn seminarau cyflog cyfartal i'r sectorau.
- y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ysgrifennu at Weinidogion yn amlinellu pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o faterion cyflog cyfartal yn y cyrff cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt.
- y byddai'r tri phartner yn cytuno ar gynnwys CD-ROM ar gyflog cyfartal.

**CEFNDIR**

1. Cyfarfu'r Gweithgor Cyflog Cyfartal am y pumed tro ar 20 Mawrth 2002. Trafodwyd y materion a ganlyn:

***Gwerthuso'r Lansiad***

- Cytunodd y grwp fod y lansiad wedi bod yn llwyddiant ym mhob lleoliad, ei fod wedi cael tipyn o sylw yn y wasg a bod yr adborth yn bositif.
- Aeth siaradwr o'r sector preifat i bob digwyddiad lansio. Er hyn, roedd y grwp o'r farn na lwyddodd y lansiad i ddenu digon o aelodau'r sector preifat i fod yn rhan ohono nac i

ddenu digon o'u sylw.

***Datblygu'r Ymgyrch***

- Dylid targedu'r sector preifat yn benodol yn ystod y broses o gyflwyno'r ymgyrch. Byddai diddordeb arbennig gan y sector preifat yn yr achos busnes a'r achos cyfreithiol dros gynnal archwiliadau cyflog cyfartal. Cytunodd y grwp i argymell i'r pwyllgor y dylai'r ymgyrch ganolbwyntio ar lansiad i'r sector preifat yn ystod Wythnos Fusnes Cymru (13-17 Mai 2002).
- Byddai amcanion yr arddangosfeydd symudol yn ddeublyg. Yn bennaf, byddent yn annog cyflogwyr i gynnal adolygiadau o gyflogau ond byddent hefyd yn codi ymwybyddiaeth gyffredinol o'r mater.
- Cytunodd y grwp i argymell i'r pwyllgor ddull o fynd ati i roi seminarau ar gyflog cyfartal fesul sector. Ceir amlinelliad manwl o argymhellion y grwp yn Atodiad A.
- Cytunodd y grwp i argymell i'r pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Weinidogion yn amlinellu pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o faterion cyflog cyfartal yn y cyrff cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt.

***Fideo Cyflog Cyfartal***

- Dywedodd y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu wrth y grwp y byddai CD-ROM ar gyflog cyfartal yn fwy rhyngweithiol ac yn haws ei ddefnyddio na fideo. Roedd gofyn i'r deunydd ar gyfer y CD-ROM fod yn syml a chanolbwyntio ar y sector preifat gan roi'r neges fod cyflog cyfartal yn fuddiol i'r cyflogwr a'r gweithiwr. Dylai'r CD-ROM fod ar gael ar gyfer Wythnos Fusnes Cymru a byddai hynny megis ail-lansio'r ymgyrch.
- Byddai'r Cynulliad, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a TUC Cymru yn ymgynghori cyn penderfynu ar gynnwys y CD-ROM.

1. Cynhelir cyfarfod nesaf y grwp cyn lansiad eilaidd yr ymgyrch yn ystod Wythnos Fusnes Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Ebrill 2002**